**Minutes of Pwyllgor Archwilio Perfformiad held on Dydd Iau, 2 Hydref 2014 at 9.30 am at Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun**

**Yn bresennol:**
**Cynghorwyr Meirick Lloyd-Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts (Is Gadeirydd), Gareth Sandilands a David Simmons (Cadeirydd)**

**Hefyd yn bresennol:**
**Mohammed Mehmet (Prif Weithredwr), Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol); Karen I Evans (Pennaeth Addysg), Leighton Rees (Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd), Phil Gilroy (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes), Keith Amos (Rheolwr - Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol), Iolo McGregor (Swyddog Gwella Corfforaethol), Ivan Butler (Pennaeth Archwilio Mewnol), Rhian Evans (Cydlynydd Archwilio) a Karen A Evans (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).**

**Aelodau Cyfetholedig; Gill Greenland, Debra Houghton a Dr. Dawn Marjoram.**

**Mynychodd y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant) a Barbara Smith (Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad) ar gais y Pwyllgor.**

**Mynychodd y Cynghorwyr Raymond Bartley a Huw Ll Jones fel arsylwyr.**

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Eryl Williams (Aelod Arweiniol dros Addysg). Aelodau Cyfetholedig Nicola Lewis a Gareth Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafodd unrhyw faterion eu codi.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2014. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo a derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2014 fel cofnod cywir.*

## 5 ARHOLIADAU ALLANOL DRO AC ASESIADAU ATHRAWON

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg, Karen Evans yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Cadarnhaodd fod yr holl ganlyniadau wedi cael eu gwirio ar wahân i Gyfnod Allweddol 4. Byddai'r canlyniadau hynny a wiriwyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2015. Er bod y mwyafrif o ysgolion a disgyblion yn perfformio'n dda, roedd meysydd penodol a fyddai'n elwa o gymorth i wella cyrhaeddiad, a'r canlyniadau yn sgil hynny i'r disgyblion.

Un maes a fyddai'n elwa o ymyrraeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yw'r iaith Gymraeg (iaith gyntaf) yng Nghyfnod Allweddol 2, a oedd wedi gweld gostyngiad o 2.9% mewn perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un rheswm posibl dros hyn yn ôl pob sôn oedd y cynnydd mewn teuluoedd cyfrwng Saesneg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. Nodwyd bod y swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ee bod Athrawon Bro bellach wedi'u trosglwyddo i Wasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) a fyddai'n cefnogi ysgolion yn yr ardal benodol hwn.

Trafododd y Pwyllgor y Cyfnod Sylfaen lle mae Awdurdodau Lleol eraill yn prysur ddal i fyny â'r Sir. Dywedwyd bod mwy o blant gyda phroblemau ymddygiad a oedd yn effeithio ar addysgu yn yr ardaloedd amddifadedd. Hefyd bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ystod o lefelau sgiliau yn y Cyfnod Sylfaen a chytunwyd ei bod yn bwysicach canolbwyntio ar gyrhaeddiad plant ar ddiwedd addysg gynradd - y cynnydd a wnaed.

Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor bod cyrff llywodraethu mewn rhai ysgolion yn teimlo nad ydynt yn derbyn digon o gefnogaeth gan GwE. Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg yr angen i gyrff llywodraethu ysgolion i roi gwybod i'r Adran Addysg os oeddent yn credu nad oedd GwE yn rhoi digon o gefnogaeth iddynt, neu bod y gefnogaeth a gafwyd ddim o'r safon a ddymunir. Byddai hyn yn galluogi swyddogion i archwilio a yw telerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) yn cael eu bodloni.

Dylai adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn Ionawr 2015 ar 'Arholiadau Allanol Wedi'u Gwirio ac Asesiadau Athrawon' gynnwys enghraifft o sefyllfa Sir Ddinbych yn genedlaethol ac yn rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf, a rhaid cynnwys Adroddiad Blynyddol GwE (a bod cynrychiolydd o GwE yn bresennol i drafod yr adroddiad.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i GwE sicrhau nad eu bwriad yw canolbwyntio eu gwaith a'u hymdrechion ar ysgolion/awdurdodau sy'n methu yn unig, a bod ganddynt wasanaethau yn eu lle i helpu i gefnogi ysgolion/awdurdodau sy'n gwneud yn dda i gyflawni lefel o ragoriaeth. Pwysleisiodd swyddogion nad yw gwasanaeth addysg y Cyngor a GwE yn endidau ar wahân a bod nodau ac amcanion y ddau wasanaeth yr un fath - i gefnogi a chynorthwyo disgyblion y Sir i wireddu eu potensial addysgol a galwedigaethol a ddylai arwain at ganlyniadau gwell ar eu cyfer. Byddai Estyn yn barnu'r Cyngor a GwE ar y canlyniadau hyn, ac ar eu rôl ar y cyd wrth gefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial.

Adroddodd y Pennaeth Addysg hyd yn hyn nad oedd unrhyw ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch plant sydd ag anghenion arbennig mewn ysgolion arbennig yn gorfod sefyll yr un profion â'r rhai sydd heb anghenion ac bod hynny wedi cael effaith negyddol ar berfformiad yr Awdurdod.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn awyddus i egluro pwynt oedd wedi codi mewn cyfarfod diweddar o'r Cabinet pan ddywedodd y dylai Ysgol Brynhyfryd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 100% o'r amser, ond roedd o'n golygu y Ffrwd Gymraeg yn hytrach na'r ysgol gyfan. Cynigiodd y Pennaeth Addysg y byddai'n trefnu ymweliad i'r aelodau i Ysgol Brynhyfryd i weld a chwrdd â disgyblion yn y ffrwd Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae nifer o Aelodau yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi ymweliad o'r fath.

Gofynnwyd bod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am y cynlluniau gwelliant ar gyfer y dair ysgol uwchradd sy'n tangyflawni fwyaf.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd: -** yn amodol ar y sylwadau a'r camau gweithredu uchod i nodi perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd.*

## 6 PLANT SY'N DERBYN GOFAL - DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Cyflwynodd yr Aelodau Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a ofynwyd amdano yng ngoleuni argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ymhellach ar fanylion yn yr adroddiad. Eglurodd fod yna broblemau gyda dangosyddion addysg ac iechyd y llynedd gyda amserlenni yn cael eu heffeithio trwy beidio â chael staff arbenigol yn eu lle, a phroblemau gyda gweithio mewn partneriaeth – gan ddibynnu'n sylweddol ar argaeledd gweithwyr iechyd proffesiynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Roedd yr Awdurdod bellach wedi cyflogi nyrs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (PDG) yn benodol sydd wedi cynyddu argaeledd ac ymatebolrwydd i adolygiadau. Mae'r swydd nyrs PDG wedi helpu'n arw gyda'r agwedd archwiliadau iechyd, gan fod y swydd hon gyda llai o ffocws ar broses ac yn canolbwyntio mwy ar wella canlyniadau ar gyfer plant unigol.

Cydnabu'r Aelodau bod y data y tu ôl i'r ystadegau a'r rhesymau dros y nifer o leoliadau a brofir rhai plant sy'n derbyn gofal yn gymhleth ac yn ddilys. Eglurwyd nad oedd yr holl newidiadau wedi cael effaith negyddol ee symud o'r ysbyty i'r Gwasanaeth neu o'r Gwasanaeth yn ôl at aelod o'r teulu.

Roedd nifer o ffactorau cyfrannol a oedd yn dylanwadu ar nifer y plant a oedd wedi bod mewn 3 neu fwy o leoliadau y flwyddyn. Mae rhai plant yn symud am resymau positif ee adsefydlu neu gyda theulu estynedig, lleoliadau mabwysiadu, symud i annibyniaeth ac ati. Mewn lleiafrif o achosion, mae'n anodd dod o hyd i adnodd sy'n gallu rheoli'r problemau a'r pryderon gan berson ifanc yn effeithiol a gallant yna symud ychydig o weithiau cyn i hynny gael ei drefnu'n foddhaol.

Roedd yr aelodau'n fodlon mai lles a sefydlogrwydd tymor hir y plentyn oedd y rhesymau y tu ôl i'r tanberfformiad canfyddedig (nifer y symudiadau), a bod yr Awdurdod mewn gwirionedd yn gweithredu er lles y plentyn.

Codwyd pryderon mewn perthynas â phlant anabl, rhai ohonynt yn mynychu ysgolion preswyl arbennig a oedd yn diwallu eu hanghenion ac eraill a oedd yn derbyn gofal maeth seibiant, yn cael eu dosbarthu fel 'Plant sy'n Derbyn Gofal' er gwaethaf y ffaith fod ganddynt fywyd teuluol sefydlog a chartref. Eglurwyd mai'r rheswm am hyn oedd y ddeddfwriaeth a geir yn Neddf Plant 1989, a oedd wedi peri gofid i nifer o deuluoedd.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LlC) ar fin treialu cyfres o ddangosyddion sy'n seiliedig ar ganlyniadau ym maes plant sy'n derbyn gofal a bod CSDd yn mynd i fod yn rhan o'r rhaglen beilot. Y gobaith oedd y byddai'r dangosyddion newydd yn mynd i'r afael â rhai o'r anghysondebau a oedd wedi dod i'r amlwg gyda'r dangosyddion cyfredol. Cydnabu'r Pwyllgor na fyddai unrhyw set o ddangosyddion byth yn berffaith, ond eu bod yn offeryn rheoli da i ofyn cwestiynau neu i ymchwilio ymhellach.

Bod y Pwyllgor:

***Yn Penderfynu: -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod a'r sicrwydd a roddwyd, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r camau a gymerwyd i wella perfformiad a chefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal y Sir.*

## 7 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2013/14

Fe gyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad y fersiwn drafft o'r Adroddiad Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2013/14 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) am sylwadau'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo ac yna i'w gyhoeddi. Ailadroddodd yr Aelod Arweiniol nad oedd unrhyw ran o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn newydd i'r Pwyllgor – a'i fod wedi'i gyflwyno ddwywaith o'r blaen - ond roedd yn adroddiad gorfodol i Lywodraeth Cymru.

Wrth ei ystyried fy dynodd y Pwyllgor sylw at y meysydd canlynol i'w harchwilio yn fanylach wrth ystyried yr adroddiad perfformiad ar y Cynllun Corfforaethol - adroddiad diwedd Chwarter 2 yn Ionawr 2015:

- y cynnydd gyda chyflawni Cytundebau Canlyniadau a'r goblygiadau posib ar y gyllideb trwy beidio â chyflawni neu gyflawni cytundebau yn rhannol wrth symud ymlaen;

- i ganolbwyntio ar feysydd cyflawni â statws 'coch', yn enwedig y rhai sy'n dangos dirywiad (saeth tuag i lawr) mewn perfformiad ac ymarferoldeb;

- yn gynnar yn 2015 dylai'r Pwyllgor ystyried effaith bosibl y toriadau yn y gyllideb wrth geisio cyflawni blaenoriaethau corfforaethol ac ar berfformiad y Cyngor yn y dyfodol wrth ddarparu gwasanaethau i alluogi disgwyliadau a risgiau yn y dyfodol i gael eu rheoli yn effeithiol

Yn ogystal â'r uchod, nodwyd y camau canlynol:

- troednodiadau i'w cynnwys ar adroddiadau yn y dyfodol i ddiffinio gweithgarwch neu ddangosyddion cymhleth;
- aelodau cyswllt pwyllgor i ganolbwyntio ar eu maes penodol o'r Cynllun Corfforaethol a threfnu i gyfarfod â'r Pennaeth Gwasanaeth os oes ganddynt bryderon ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor
- gwnaed sylw bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn canolbwyntio gormod ar broses a heb ddigon o bwyslais ar gamau gweithredu i ddatblygu'r economi leol
- bod casgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu maes o law - gyda'r GCIGA yn penderfynu ar y Pwyllgor mwyaf priodol

Felly:

***Penderfynwyd:***
*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y fersiwn drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013/2014 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo; a*
*(ii) dylai'r Pwyllgor yn y dyfodol ddefnyddio'r Adroddiad Perfformiad Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 i nodi meysydd a chytundeb canlyniadau ar gyfer archwiliad manwl gyda’r golwg i wella perfformiad a gwireddu’r manteision gorau posibl o'r cytundebau canlyniadau.*

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor ac i roi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad mae’r adroddiad cwynion "Eich Llais" wedi’i drefnu. Mae Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg wedi gofyn i’r Pwyllgor ddewis 2 maes Gwasanaeth i ganolbwyntio arno i Swyddogion i fod yn bresennol ac i ymateb i gwestiynau. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd gyfarfod â'r Cydlynydd Archwilio i fynd drwy'r adroddiad a dewis 2 faes gwasanaeth sy'n sefyll allan.

Roedd teledu cylch cyfyng hefyd ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Perfformiad nesaf. Mae'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi gofyn i’r cwestiwn gael ei ofyn ynglŷn â chyfraniad Heddlu Gogledd Cymru at gyllid TCC.

Diweddarwyd y Pwyllgor ar y newyddion diweddaraf am y cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio sy'n argymell y dylai rhaglenni gwaith i'r dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a chyllidebau cyfarfod. Cytunodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) hefyd bod yr eitemau wedi'u cynnwys ar agendâu angen pasio'r prawf "P.A.P.U.R" a bod ffurflenni sy'n cyflwyno eitemau i'w harchwilio yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau.

Mae'r GCIGA wedi trafod y posibilrwydd o eitemau yn ymwneud ag aelodau cyfetholedig yn cael eu cyflwyno yn unig i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ond yn y diwedd wedi cytuno eu bod yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor mwyaf perthnasol.

***PENDERFYNWYD** bod -*

*y rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Cyhoeddodd y Cynghorydd Colin Hughes fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy ym mis Hydref ac na allai fod yn bresennol - ond byddai ei ddirprwy y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams yn bresennol. Roedd cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer 24 Hydref ac ni allai'r naill na'r llall fod yn bresennol. Cytunodd y Cadeirydd i ddirprwyo ar yr achlysur hwn.

## 10 DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL MEWNOL

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

Cyflwynwyd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Archwilio a oedd wedi bod yn edrych ar ddyfodol y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn fewnol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies a amlinellodd y broses a ddilynwyd a'r dull a dyfnder yr adolygiad. Pwysleisiwyd, er bod y Cyngor yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol yn y dyfodol, y prif yrrwr ar gyfer yr adolygiad hwn oedd yr angen i fodloni gofynion poblogaeth hŷn gynyddol o fewn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, a oedd yn gosod llawer mwy o bwyslais ar hyrwyddo annibyniaeth ac ail-alluogi.

Mae nifer o aelodau yn cwestiynu'r rhesymeg y tu ôl i'r opsiynau a nodir yn yr adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn cynnwys argymhellion y Grŵp. Roedd y cwestiynau a gafodd eu hateb gan Gadeirydd a swyddogion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gysylltiedig â'r gallu o fewn y sector annibynnol yn lleol i gwrdd â'r galw

am wasanaethau, ansawdd y gwasanaethau yn y sector annibynnol, trefniadau monitro, arbedion a ragwelir a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau os y cytunir arnynt. Pwysleisiodd Cadeirydd ac aelodau y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn ogystal â swyddogion, fod y cynigion sy'n deillio o adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar y dinesydd, ac y byddai'r pwyslais ar ateb anghenion y defnyddiwr gwasanaeth a darparu mynediad teg i wasanaethau ar gyfer holl drigolion y Sir. Ni fyddai unrhyw sefydliad yn cael ei gau cyn bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Byddai'r cyfalaf o werthu unrhyw adeiladau yn sgil yr adolygiad yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gofal ychwanegol yn y dyfodol ac yng ngwasanaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Ar ddiwedd y drafodaeth fanwl cafodd yr argymhellion eu rhoi i bleidlais a:

***Penderfynwyd:***

*(i) derbyn yr arfarniad o opsiynau a chefnogi'r opsiynau a ffefrir, gan arwain at ail-ddarparu gwasanaethau ar gyfer y bobl hynny sy'n eu defnyddio wrth barhau i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd; a*

*(ii) bod y Pwyllgor gan nodi bod yr adroddiad a'r gwerthusiad o'r opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w drafod, yn argymell i'r Cabinet bod ymgynghoriad ffurfiol, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn cael ei gynnal ar ailddarparu gwasanaethau fel y gellir gweithredu'r opsiynau a ffefrir a gwneud arbedion.*